

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Craffu Partneriaethau

Dyddiad: 10 Rhagfyr 2021

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 16 RHAGFYR 2021** am **10.00** am yn **BY VIDEO CONFERENCE**.

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU  
ETHOLEDIG AM 09.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2021 (copi i ddilyn).

### **5 BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 17 - 42)

I ystyried adroddiad gan y Prif Weithredwr ar adroddiad Chwarter 2 y Bwrdd ar ei berfformiad, gwaith a chynnydd mewn cyflenwi ei brosiectau yn ystod 2021-22 (copi ynghlwm).

10:10 – 10:45

**6 GWASANAETHAU CEFNOGI ATAL DIGARTREFEDD A CHYSYLLTIEDIG Â THAI** (Tudalennau 43 - 78)

I ystyried adroddiad yn edrych ar effeithiolrwydd y gwasanaeth amlddisgyblaethol wrth gyflenwi gwasanaethau digartrefedd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cefnogi atal digartrefedd a chysylltiedig â thai; ac adolygu'r camau gweithredu sy'n codi o'r Archwilio Mewnol o 'Ddarpariaeth Llety i'r Digartref' yn unol â'r atgyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Ionawr 2021 (copi ynghlwm).

10:45 – 11:30

**EGWYL 11:30 - 11:45**

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 79 - 102)

I ystyried adroddiad ar weithgareddau'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol yn ystod 2020/21 a'i feysydd o flaenoriaeth ar gyfer 2021/22 (copi ynghlwm).

11:45 – 12:15

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 103 - 124)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

12:15 – 12:30

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Joan Butterfield  
Ann Davies  
Gareth Davies  
Rachel Flynn  
Pat Jones

Y Cynghorydd Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Christine Marston  
Melvyn Mile  
Rhys Thomas  
David Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn by video conference, Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Joan Butterfield, Rachel Flynn, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Rhys Thomas, David Williams a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (EJ), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Swyddog Arweiniol Datblygu Economaidd a Busnes (GT), Rheolwr Cymorth Busnes (PB), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd (MJ), Uwch Beiriannydd Diogelwch y Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy (BW-J), Cydlynnydd Craffu (RE), Gwesteier Zoom (KJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

Mr Stuart Davies (Preswylydd Llangollen)  
Rod Urquart, Civica

Roedd yr Aelodau Arweiniol, y Cyngorwyr Brian Jones a Julian Thompson-Hill yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

**Arsylwyr** - y Cyngorwyr Huw Hilditch-Roberts, Bobby Feeley, Tina Jones, Meirick Lloyd Davies a Tony Thomas.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd) ac Ann Davies.

Estynnodd y Pwyllgor eu dymuniadau gorau i'r Cadeirydd am wellhad buan a llwyr yn dilyn ei harhosiad diweddar yn yr ysbyty.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriodd yr Is-gadeirydd y cyfarfod.

### 2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau personol na rhai sy'n rhagfarnu ar y pwynt hwn mewn perthynas ag unrhyw rai o'r eitemau busnes sydd i'w trafod. Datganodd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn ystod y drafodaeth gydag eitem fusnes 5, fel perchennog busnesau mewn dwy o drefi'r sir.

### 3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryn wedi'u codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

#### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021.

##### **Materion yn codi –**

**Eitem Fusnes 4 ‘Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd)’** – Dywedodd y Cydlynnydd Craffu (CC) y cafwyd gwybodaeth gan CGGSDd yn nodi bod disgwyl i Neuadd Farchnad Rhuthun ar ei newydd wedd ailagor yn ystod pythefnos cyntaf mis Rhagfyr, gyda’r union ddyddiad i’w gadarnhau. Roedd gwefan newydd CGGSDd wrthi’n cael ei datblygu ac roedd disgwyl iddi gael ei lansio at ddiwedd y flwyddyn. Byddai’r sefydliad yn cynnal ei Gyfarfod Blynnyddol ar 30 Tachwedd 2021, ac roedd gwahoddiad wedi’i anfon i bob budd-ddeiliaid.

**Eitem fusnes 5 ‘Partneriaeth Diogelwch Cymunedol’** – Atgoffwyd yr aelodau y byddai cynrychiolwyr yr Heddlu yn mynychu sesiwn Frifffio’r Sir ym mis Tachwedd 2021 i drafod eu gwaith yn mynd i’r afael â Llinellau Cyffuriau a throseddau eraill sy’n ymwneud â chyffuriau yn Sir Ddinbych.

Yn amodol ar yr uchod:

**PENDERFYNWYD** *derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 fel cofnod cywir.*

#### 5 CYNLLUN ADFER CANOL TREFI YN DILYN COVID A MENTRAU ARDRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad ar y Cynllun Adfer Canol Trefi yn dilyn Covid a Mentrau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (a ddsbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion nifer yr eiddo busnes gwag sydd yna yng Nghanol y Trefi a mentrau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR). Roedd yr adroddiad hefyd yn amlygu’r heriau y mae busnesau canol tref yn eu hwynebu ledled y sir a’r dulliau sy’n cael eu defnyddio i fynd i’r afael â’r rhain.

Er bod cyfanswm yr Eiddo Gwag o fewn ardal y Cyngor wedi cynyddu o 267 eiddo (Ebrill 2020) i 294 eiddo (Medi 2021), mae cyfanswm eiddo Ardrethi Busnes hefyd wedi cynyddu o 4,361 eiddo (Ebrill 2020) i 4,455 eiddo (Medi 2021). Mae’r adeiladau gwag yn cynrychioli 6.7% o’r 4,455 o eiddo Ardrethi Busnes cyffredinol.

Mae yna wahanol eithriadau rhag ardrethi eiddo gwag, e.e. y cyfnod eithriad cychwynnol o 3 neu 6 mis, eiddo y mae ei berchennog yn destun achos ansolfedd, eiddo y mae ei werth ardrethol yn is na’r trothwy taladwy, adeiladau rhestredig, tir, mastiau telathrebu ac eiddo y gwaherddir ei feddiannu yn ôl y gyfraith. Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn dangos dadansoddiad o’r eiddo gwag a’r eithriadau cysylltiedig.



Roedd yna ddwy fenter allweddol gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn cynnig cymorth i ddsbarthiadau penodol o Fusnesau drwy gynlluniau rhyddhad. Byddai'r mentrau hyn yn cynnig gostyngiad yn yr Ardrethi Busnes neu hyd yn oed yn eu dirymu.

Dyma'r ddau gynllun:

- Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, sy'n cynnig hyd at 100% o ryddhad i Fusnesau sydd â Gwerth Ardrethol o dan £6,000, a rhyddhad ar raddfa i fusnesau sydd â Gwerth Ardrethol rhwng £6,001 a £12,000.
- Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch, sy'n cynnig gostyngiad o 100% mewn Ardrethi Busnes i Fusnesau cymwys yn 2020/21 a 2021/22.

Roedd yna ddewis pellach i Awdurdodau Lleol roi gostyngiad yn yr ardrethi taladwy, gan ddefnyddio'r grymoedd a roddwyd o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Byddai'n gwneud hyn drwy ddyfarnu rhyddhad yn ôl disgrisiwn. Fodd bynnag, byddai cost lawn unrhyw ddyfarniad a roddwyd o dan y cynllun hwn yn cael ei dalu gan y Cyngor.

Problem arall gyda dyfarniad o dan y Ddeddf Lleoliaeth oedd y gallai Busnesau eraill hawlio bod y Cyngor wedi creu amgylchedd gwrth-gystadleuol am ei fod yn rhoi cymhorthdal i rai trethdalwyr, gan roi eraill dan anfantais drwy wneud hynny.

Er bod cynlluniau rhyddhad ar gael, roedd siopau wedi cau yn lleol ac yn genedlaethol, a arweiniodd at nifer o eiddo gwag. Roedd pedwar rheswm dros hyn:

- Er bod yr Ardrethi Busnes wedi'u gostwng, ni welwyd gostyngiad cyfwerth mewn rhenti eiddo ac mewn nifer o achosion, nid oedd y landlordiaid wedi cynnig gostyngiad mewn rhent.
- Roedd rhai cwmnïau mawr wedi symud siopau unigol i eiddo mwy, e.e. bu i Carphone Warehouse gau eu siopau ym Mharc Manwerthu Prestatyn ac yn y Rhyl, a'u cynnwys yn yr eiddo mwy ym Mharc Manwerthu Clwyd yn y Rhyl.
- Roedd unedau siopau eraill hefyd wedi cau ac wedi'u cynnwys mewn siopau eraill, fel Argos yn siop Sainsbury's neu Costa Coffee yn rhan o garej.
- Mae'r newid i siopa ar-lein wedi cynyddu ymhellach yn sgil Covid-19. Mae nifer o fusnesau, banciau yn enwedig, wedi cau nifer o ganghennau am fod pobl yn defnyddio gwasanaethau ar-lein.  
Yn ogystal, mae cwsmeriaid bellach yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o siopau manwerthu fel manau casglu neu ollwng, ar ôl archebu'r nwyddau ar y rhyngwyd.

Mae data ar nifer yr ymwelwyr i'r trefi i'w weld yn Atodiad 3. Mae'r data'n dangos yr effaith negyddol amlwg y mae Covid-19 wedi'i gael ar ganol trefi yn sgil canllawiau'r llywodraeth ar gyfyngiadau masnachu a theithio.

Roedd y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes (DEB) wedi comisiynu arolwg busnes er mwyn cael dealltwriaeth o'r heriau roedd busnesau'n eu hwynebu yn sgil Covid-19. Trefnwyd y lansiad i gyd-fynd â diwedd y cyfnod ffyrlo er mwyn cael gwell dealltwriaeth. Bydd adroddiad ar y canfyddiadau ar gael yn gynnar yn 2022.

Cynigiodd rhaglen thematig Trawsnewid Trefi becyn cymorth hyblyg ac eang i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gyda'r nod o adfywio canol trefi ledled Cymru.

Roedd y rhaglen yn dilyn dull 'Canol Trefi yn gyntaf' o adfywio a chafodd ei chyflwyno a'i blaenoriaethu ar lefel ranbarthol. Yn achos Gogledd Cymru, goruchwyliwyd y blaenoriaethu gan Grŵp o Swyddogion Adfywio Rhanbarthol, oedd yn cynnwys y chwech awdurdod lleol. Mae prosiectau a ddarperir drwy'r pecyn hwn ar hyn o bryd yn cynnwys Stryd y Castell Llangollen 2020, Hummingbird Dinbych, Marchnad y Frenhines Cam 1 a Phorth Canol Tref y Rhyl Cam 1.

Roedd y tîm DEB yn cefnogi'r cais ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad. Diben y Gronfa hon oedd buddsoddi mewn seilwaith, gan gynnwys adfywio canol trefi a strydoedd mawr, gwella cludiant lleol a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis y Rhyl fel un o bedair tref beilot ar gyfer y Gronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref. Roedd y gronfa yn cynnig hyd at £10,000 y busnes mewn referniw i sefydlu neu adleoli yn y dref. Hyd yma, mae 22 o fusnesau wedi mynegi diddordeb, ac mae'r ceisiadau yn cael eu prosesu gan Busnes Cymru.

Yn ystod y trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Yn ystod cyfnodau prysur yn y flwyddyn, roedd ambell ardal yn gweld nifer uchel o ymwelwyr, ac awgrymwyd y gallai cludiant o un dref i'r llall i ymwelwyr leddfau achosion o dorfeydd yn heidio i'r un manau poblogaidd. Cadarnhawyd bod swyddogion yn edrych ar ddewisiadau creadigol i annog ymwelwyr i grwydro gwahanol drefi, gan gynnwys cysylltu â gweithredwyr masnachol i drafod y posibilrwydd o gludiant.
- Cadarnhawyd bod mynd i'r afael ag eiddo busnes gwag a'u llenwi yn flaenoriaeth i CSDd a Llywodraeth Cymru.
- Awgrymwyd y gallai cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd Grwpiau Ardal yr Aelodau (GAA) fod yn ffordd ymarferol o gyfleu gwybodaeth i bob aelod, yn hytrach nag aros i eitem gael ei chyflwyno yn y Pwyllgor Craffu. Cadarnhaodd y swyddogion y gellid darparu diweddariad rheolaidd (e.e. bob 3 mis) i gyfarfodydd GAA, ac y gallai'r wybodaeth honno gynnwys y diweddaraf am brosiectau adfywio a mentrau Cronfa Codi'r Gwastad.
- Roedd siopau dros dro yn cael eu treialu yn y Rhyl. Byddai'r rhain yn rhoi cyfle i fasnachwyr bach a busnesau newydd arddangos eu cynnyrch a'u busnesau.
- Roedd annog busnesau o gyrion y dref i ddod i mewn i ganol y dref yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn rhedeg cynllun o'r enw "Canol Trefi yn Gyntaf", a bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhannu â'r aelodau. Roedd y Cynllun Canol Trefi'n Gyntaf yn cysylltu â gwaith y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer dyfodol Sir Ddinbych.
- Holwyd tybed a oedd rhai busnesau'n gyndyn o ymuno â chynlluniau neu newid eu horiau gweithredu neu fodolau busnes er mwyn manteisio ar arferion byw cyfoes, y mae rhai ohonynt wedi newid yn sylweddol ers cychwyn y pandemig, ond cadarnhawyd y byddai busnesau'n cael anogaeth i addasu. Roedd CSDd am gynnal arolwg penodol mewn perthynas â hyn, a byddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu â'r aelodau.
- Y ddau Brosiect Digidol oedd:

- Trefi SMART MaybeTech – Byddai'r prosiect yn cael ei redeg ar y cyd â Menter Môn, Ardal Gwella Busnes y Rhyl a'r darparwr technoleg, MaybeTech, ac yn cynnig plattform digidol i fusnesau canol tref y Rhyl.  
Dewiswyd y Rhyl fel lleoliad peilot ar gyfer mabwysiadu technoleg newydd i wella cystadleurwydd a chynaliadwyedd y dref. Roedd y plattform yn cynnig data craff i fusnesau i'w helpu i lywio penderfyniadau ar adfer a thyfu eu busnes.
- Cynllun Grant Digidol Cyngor Sir Ddinbych – Roedd y cynllun yn cynnig cymorth ariannol i fusnesau fabwysiadu technoleg ddigidol er mwyn gwella cynhyrchiant, sefydlogrwydd a thwff.  
Roedd y cynllun ar agor i fusnesau ledled y sir oedd yn fodlon cynnal adolygiad o'u busnes gyda Cyflymu Cymru i Fusnesau fel arbenigwyr pwnc. Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn helpu penderfynu pa grant i wneud cais ar ei gyfer a pha becynnau oedd yn cael eu hariannu.
- Dywedodd y swyddogion nad oedd canlyniadau'r arolwg ond un elfen o'r wybodaeth yr oedden nhw'n ei defnyddio i helpu cyfeirio busnesau canol tref bach a chanolig at becynnau cymorth oedd ar gael iddyn nhw.  
Roedd setiau data eraill, fel gwybodaeth am nifer yr ymwelwyr, hefyd yn cael eu defnyddio. Roedden nhw hefyd yn annog aelodau i lywio'r Gwasanaeth os oedden nhw'n ymwybodol o eiddo busnes gwag yn eu wardiau nad oedd i'w gweld ar restr y Cyngor.
- Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i helpu busnesau lleol oroesi a ffynnu yn sgil y pandemig, roedd nifer o fusnesau wedi cael eu taro'n galed ac, yn dibynnu ar natur y busnes, yn parhau i wynebu anhawster am beth amser nes y byddai rhyw fath o 'fusnes arferol' a hyder ymysg defnyddwyr yn dychwelyd.

Ar ddiwedd trafodaeth drylwyr bu i'r Pwyllgor:

***BENDERFYNU***, yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod, derbyn y wybodaeth am waith sydd ar y gweill i gefnogi adferiad canol trefi'r Sir yn dilyn Covid-19, mentrau ardrethi annomestig cenedlaethol a lleihau nifer yr eiddo busnes gwag.

**EGWYL – 11:35 - 11.45**

## **6 CYNLLUNIAU CYNLLUN TEITHIO LLESOL COVID-19**

Roedd aelod o'r cyhoedd, Mr Stuart Davies, wedi gofyn am gael cyfarch y Pwyllgor, a chytunwyd iddo gael siarad ar ôl yr aelodau a'r swyddogion.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, adroddiad ar y Cynllun Teithio Llesol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y cynlluniau teithio llesol dros dro a roddwyd ar waith yn nifer o ganol trefi Sir Ddinbych ddiwedd 2020, ac oedd bellach wedi cael eu dileu.

Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad pellach ar ganfyddiadau'r prosiect fel dilyniant i adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Rhagfyr 2020 ac oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad.

Cafwyd crynodeb gan y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd ar gefndir y cynllun gwreiddiol. Roedd cynlluniau wedi cael eu datblygu ar gyfer canol trefi Dinbych, Llangollen, y Rhyl a Rhuthun. Cafodd y rhain gyllid gan LIC ym mis Mehefin 2020, ac eithrio Dinbych, a dynnwyd yn ôl. Roedd adroddiad Rhagfyr 2020, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A, yn darparu mwy o fanylion am y grant a'r broses a ddilynwyd.

Yn dilyn oedi ar y cychwyn yn sgil argaeledd contractwr a phrinder deunyddiau, rhoddwyd cynlluniau Llangollen, y Rhyl a Rhuthun ar waith ym mis Tachwedd 2020.

**Cynllun Rhuthun** - Cafodd y cynllun yn Rhuthun broblemau cychwynol y deliwyd a nhw'n bennaf drwy wneud mân addasiadau i'r cynllun. Cafwyd cwynion gan nifer o fusnesau a effeithiwyd yn uniongyrchol gan y mesurau am golli manau parcio a llwytho y tu allan i'w heiddo. Er fod rhai mesurau lliniaru ar gyfer y colledion hynny wedi'u cynnwys o fewn y cynllun cyffredinol, ni ystyriwyd hyn yn ddigon gan rai perchnogion busnes. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda GAA Rhuthun a arweiniodd at i'r Aelod Arweiniol benderfynu tynnu'r cynllun yn ôl, a digwyddodd hyn ym mis Chwefror 2021.

**Cynllun Llangollen** - Ychydig iawn o adborth a gafwyd i gychwyn mewn ymateb i'r cynllun yn Llangollen yn dilyn ei gyflwyno yn gynnar ym mis Tachwedd 2020. Fodd bynnag, o fis Mawrth 2021 ymlaen, gwelwyd nifer o achosion o gerddwyr yn baglu dros sylfaeni'r pyst dros dro a osodwyd. Wrth i'r achosion hyn barhau, cafodd y pyst eu disodli gyda photiau plannu blodau cul a lwyddodd i roi diwedd ar yr achosion o faglu. Roedd y cynllun dros dro hefyd wedi arwain at gynnydd mewn cerbydau mawr yn gyrru ar y palmant er mwyn gallu mynd heibio rhwystrau a achoswyd gan y lôn draffig wrthwynebol.

Er gwaethaf y pryderon, roedd GAA Dyffryn Dyfrdwy yn awyddus i gadw'r cynllun dros dro gan fod y palmant ychwanegol a grëwyd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer y nifer fawr o gerddwyr yn Llangollen. Roedd y farn hon hefyd wedi'i seilio ar yr adborth a gafwyd o ymgynghoriad ar-lein dilynol. Er y cafwyd safbwyntiau cymysg am y cynllun dros dro, nododd o leiaf 60% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylai'r cynllun barhau oherwydd ei fod yn gweithio'n dda, neu oherwydd eu bod yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i lunio casgliadau i'r gwrthwynebol. Nododd sylwadau gan swyddogion ar y safle fod digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r palmentydd ehangach, hyd yn oed y tu allan i'r cyfnodau brig, megis ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

Yn dilyn llacio cyfyngiadau Covid Llywodraeth Cymru yng nghanol mis Awst 2021, ac ar ôl symud i Lefel Rhybudd 0, penderfynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd ddileu'r cynllun dros dro yn dilyn trafodaeth gydag aelodau lleol.

**Cynllun y Rhyl** - Ar ôl ei roi ar waith, ychydig iawn o adborth a gafwyd gan drigolion am y cynllun dros dro yn y Rhyl. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan fusnesau lleol a ddywedodd bod colli parcio ar y stryd wedi cael effaith niweidiol ar eu busnesau. Cododd rhai trigolion ac aelodau lleol bryderon bod y cynllun wedi cynyddu ciwiau traffig ar gyffordd yr A548 Ffordd Wellington/Stryd Bodfor. Yn dilyn

ymgyngoriad gyda GAA y Rhyl, daeth yr Aelod Arweiniol i benderfyniad, a dilëwyd y cynllun ddiwedd Ebrill 2021.

O ganlyniad i'r ymateb arbennig o negyddol i gynllun Dinbych, cytunwyd i gynnal ymgyngoriad byr ar gyfer y pedwar cynllun dros dro arfaethedig.

Ac eithrio cynllun Dinbych, cafodd y tri chynllun arall eu cefnogi gan ymatebwyr yr ymgyngoriad ar y cyfan. Erbyn i'r prosiectau gael eu cyflwyno ddiwedd Hydref/dechrau Tachwedd, roedd nifer ymwelwyr cyfnod brig y gwanwyn/yr haf wedi gostwng ac roedd y "cyfnod atal byr" ym mis Hydref newydd ddigwydd. Oherwydd y tywydd oerach, ynghyd â chyfnod clo pellach rhwng 20 Rhagfyr 2020 a'r Gwanwyn, roedd nifer o'r canol trefi yn eithaf gwag. Felly roedd diben y cynlluniau dros dro hyn yn llai amlwg, yn enwedig gan fod hyn yn aml wedi dod ar draul parcio ar y stryd. Roedd hyn yn sicr yn ffactor ar gyfer dileu cynlluniau'r Rhyl a Rhuthun yn gynnar.

Cadarnhawyd bod CSDd wedi bod mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ac wedi cyfleu rhai o'r problemau a'r heriau a wynebwyd mewn perthynas â'r cynlluniau.

Yn ystod y drafodaeth:

- Bu i aelodau'r Pwyllgor gydnabod er mai nod y cynllun brys a ariannwyd yn llawn gan LIC oedd helpu busnesau canol y dref yn ystod argyfwng cenedlaethol pan oedd rheolau cadw pellter cymdeithasol mewn grym, bod yr amserlenni tynn a'r rheolau llym oedd yn gysylltiedig wedi llesteirio ei gyflawniad a'i effeithiolrwydd cyffredinol.
- Dywedodd swyddogion bod yr awdurdodau lleol eraill a oedd wedi gweithredu'n gyflym heb ymgyngori â busnesau lleol er mwyn sefydlu'r cynlluniau'n gyflym, hefyd wedi cael eu beirniadu am eu gweithrediad a'u cyflawniad.
- Roedd aelodau lleol Llangollen o'r farn y bu'r cynllun yn llwyddiant yno, a'i fod wedi helpu cadw trigolion lleol ac ymwelwyr yn ddiogel yn ystod tymor twristiaid eithriadol o brysur yn yr ardal.
- Cafwyd trafodaethau rheolaidd wrth weithredu'r cynllun yng nghyfarfodydd Uwch Dîm Arwain y Cyngor, a bu awdurdodau lleol yn adrodd yn rheolaidd i LIC ar eu cynlluniau, eu llwyddiannau ac unrhyw wrthwynebiadau a heriau y bu'n rhaid iddyn nhw eu hwynebu.
- Byddai gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer penodol hwn yn fuddiol wrth ddatblygu cynlluniau teithio llesol hirdymor yn y dyfodol gyda'r nod o fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd.

Ar y pwynt hwn, rhoddwyd cyfle i Mr Stuart Davies gyfarch y Pwyllgor Craffu Partneriaethau. Cyfeiriodd Mr Davies at yr adroddiad oedd yn ymwneud â Llangollen a oedd, yn ei farn ef, yn anghyflawn. Teimlai bod yr adroddiad wedi methu â chydabod materion pwysig. Roedd yn cydnabod yr amserlen fer yr oedd rhaid gweithio iddi, ond teimlai y cytunwyd ar y cynllun mewn egwyddor heb ymgyngori ymlaen llaw â Chyngor Tref Llangollen nag aelodau'r cyhoedd. Aeth ymlaen i nodi nad oedd yr adroddiad yn cydnabod deiseb ag arni 600 o lofnodion wedi'u dilysu a oedd yn gwrthwynebu'r cynllun, a gyflwynwyd i swyddogion a chynghorwyr CSDd. Nododd bod 80% o'r busnesau lleol wedi gwrthwynebu'r cynllun. O ystyried nifer yr anafiadau i aelodau'r cyhoedd, roedd swyddogion a

chynghorwyr perthnasol CSDd wedi methu ag ymarfer diwydrwydd dyladwy drwy gofnodi asesiad risg a oedd yn rhoi ystyriaeth i'r perygl o anafiadau i'r cyhoedd, er i'r cyhoedd fynegi pryder am hyn o'r cychwyn cyntaf. Bu i ymgynghoriad cyhoeddus mis Gorffennaf gydnabod bod mwyafrif yr ymatebion yn nodi nad oedden nhw'n cael eu hannog i ddefnyddio mwy ar fesurau teithio llesol. Yn dilyn sawl anaf i'r cyhoedd ac er i Gyngor Tref Llangollen wneud cais am asesiad risg ar gyfer defnyddio amddiffynwyr lôn, ac yna potiau plannu, fel estyniad i gerddwyr ar briffordd gyhoeddus, ni chafwyd asesiad o'r fath. Anwybyddwyd pryderon cychwynol gan y cyhoedd nes i gopiâu o ffilm TCC a ffotograffau gan Mr Davies o'r damweiniau a ddigwyddodd gael eu hanfon at Aelodau Seneddol a'r Wasg. Ym marn Mr Davies, roedd Llangollen wedi cael rhywfaint o'r cyhoeddusrwydd gwaethaf posib o ganlyniad i'r wasg genedlaethol, gydag adroddiadau'n ymddangos ar y BBC ac yn y *Daily Mail*. Hyd yn oed wedyn, yn ei farn ef, roedd swyddogion CSDd yn parhau i asesu bod y cynllun yn addas i'r diben heb unrhyw ddogfennau na thystiolaeth wedi'i seilio ar ffeithiau i gefnogi eu datganiad. Aethpwyd ymlaen i addasu'r cynllun yn Llangollen, ar gost ychwanegol, gan wrthod ceisiadau'r cyhoedd i ddileu'r cynllun. Roedd cau Short Street yn rhan o'r cynllun ac fe seiliwyd hyn ar safbwyntiau personol gan ddyfynnu pryderon diogelwch amhenodol. Datgelodd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth dilynol na fu unrhyw ddamweiniau yno yn y pum mlynedd diwethaf. Galwodd Mr Davies ar y Pwyllgor Craffu Partneriaethau i ofyn pam na chynhaliwyd asesiadau risg priodol, gan fod hynny wedi arwain at anafiadau difrifol i'r cyhoedd. Pam na roddwyd ystyriaeth i'r farn gyhoeddus a pham fod CSDd wedi ceisio datblygu rhywbeth nad oedd yn addas i'r diben yn y lle cyntaf? Dilëwyd cynllun teithio llesol Rhuthun, felly pam na ddigwyddodd hyn yn Llangollen?

Yn dilyn datganiad Mr Stuart Davies, cynigiodd y Cynghorydd Rachel Flynn bod y cyngor yn adolygu'r broses a ddefnyddiwyd i weithredu a dileu pob Cynllun Teithio Llesol Covid-19 yn Sir Ddinbych, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Joan Butterfield.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr argymhelliad ychwanegol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar bob agwedd ar y Cynlluniau, bu i'r Pwyllgor:

***BENDERFYNU:*** - yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod, y byddai'n –

(i) derbyn y wybodaeth a ddarparwyd; ac yn

(ii) gofyn i'r Cyngor adolygu'r broses a ddefnyddiwyd i weithredu ac i ddileu pob Cynllun Teithio Llesol Covid-19 yn Sir Ddinbych, gyda golwg ar adnabod arferion da a gwersi i'w dysgu y gellid eu defnyddio wrth ddsbarthu ffrydiau cyllido brys tymor byr allai fod ar gael yn y dyfodol.

## **7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyfeiriodd y Cydlynnydd Craffu at yr adroddiad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor, a chyflwynodd y wybodaeth ddiweddaraf am faterion perthnasol.

Atgoffwyd yr Aelodau y dylen nhw ddefnyddio'r Ffurflen Cynnig Testun Craffu os oedd ganddyn nhw bwnc yr hoffon nhw iddo fod yn destun craffu.

Teimlai'r aelodau y bu'r sesiwn gynllunio busnes cyn y cyfarfod a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol yn hynod fuddiol, gan ofyn am gael cynnal un tebyg cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Felly:

***PENDERFYNWYD:*** - yn amodol ar y sylwadau uchod –

*(i) cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor; a*

*(ii) chynnal sesiwn friffio rithiol cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.*

## **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Dim.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 12.48 PM**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



<b>Adroddiad i</b>	<b>Bwyllgor Craffu Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>16 Rhagfyr 2021</b>
<b>Aelod Arweiniol</b>	<b>Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd/Graham Boase, Prif Swyddog Gweithredol</b>
<b>Awdur yr adroddiad</b>	<b>Graham Boase, Prif Swyddog Gweithredol</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adroddiad Diweddarau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Chwarter 2</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd) yn ystod chwarter 2 2020/21

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Ystyried adroddiad diweddarau chwarter 2 y Bwrdd ar ei waith a'i gynnydd yn ystod y chwarter hwnnw.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau yn:

- 3.1. ystyried cynnwys adroddiad Ch2 a darparu sylwadau ac adborth; ac.
- 3.2. yn cytuno fod adroddiadau Ch2 o hyn ymlaen yn cael eu cylchredeg at ddiben gwybodaeth (yn unol â pharagraff 4.2 isod).

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Ar 8 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y Cyngor y Fargen Dwf Derfynol gyda Llywodraethau'r DU a Chymru a chytunwyd ar gytundeb llywodraethu (GA2) fel sail i lywodraethu gwaith y Bwrdd i ddarparu'r Weledigaeth Dwf a'r Fargen Dwf. Fel rhan o GA2, cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn paratoi

adroddiad chwarterol ar waith y Bwrdd a'i rannu gyda phob sefydliad partner er mwyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.

4.2. Cytunwyd hefyd y byddai swyddog o'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gallu dod i gyfarfod y pwyllgor craffu perthnasol er mwyn ateb cwestiynau. Cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn anfon cynrychiolydd i'r Pwyllgor Craffu i ystyried yr adroddiad Ch4 a bod yr adroddiadau mewn perthynas â Chwarter 1 a Chwarter 3 yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth. Gan mai hwn yw'r adroddiad Ch2 cyntaf i Bwyllgor Graffu yn Sir Ddinbych bydd uwch swyddogion o'r Cyngor yn bresennol i'w gyflwyno. O hyn ymlaen awgrymir y dylai adroddiadau Ch2 gael eu cylchredeg er gwybodaeth, yn unol â'r arfer yn y cynghorau eraill, gyda'r Adroddiad Ch4/Blynyddol yn cael eu cyflwyno a'u trafod yn ffurfiol gan y Pwyllgor.

4.3. Mae'r adroddiad yn cynnwys Atodiad 1, sef Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 Bargen Dwf Gogledd Cymru.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r Fargen Dwf yn seiliedig ar themâu sydd yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn codi'n uniongyrchol o archwilio'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal gydag eraill.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Fel y nodwyd ar flaen yr adroddiad hwn, dyma adroddiad diweddar, er gwybodaeth i'r aelodau, ac nid oedd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyfarniad gofynion llythyr ariannu a GA2.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag archwilio'r adroddiad hwn.

## **11. Y Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. a21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Adroddiad Perfformiad

### Chwarter 2 2021-22

### (Gorffennaf i Medi 2021)

Tudalen 21

1.	Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio.....	3
2.	Perfformiad Cyffredinol y Portffolio.....	4
3.	Perfformiad y Rhaglen Ddigidol.....	5
4.	Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel.....	7
5.	Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo.....	10
6.	Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth.....	13
7.	Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel.....	15
8.	Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Medi 2021.....	17
9.	Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni yn erbyn targedau.....	18
10.	Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf.....	19
11.	Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf *.....	20
	ATODIAD A.....	21

Yn y chwarter hwn, cwblhawyd ail adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf a chyflawnwyd radd o Ambr-Gwyrdd. Dyma'r ail radd hyder cyflawni uchaf sydd ar gael ac yn welliant ar y radd 'Ambr' a dderbyniwyd yn 2020.

*"Mae'r Portffolio wedi gwneud cynnydd sylweddol a thrawiadol ers yr Adolygiad Sicrwydd Portffolio (PAR) diwethaf, a hynny mewn amgylchiadau heriol."*

Mae'r adolygiad a wnaed gan dîm adolygu annibynnol yn gwirio'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, yn benodol ers llofnodi'r Cynllun Twf Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth ym mis Rhagfyr 2020.

Ym mis Awst, cymeradwyodd y Bwrdd ddau Achos Busnes Amlinellol (OBC): **Canolbwynt Economi Digidig Glynlifon**, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, a'r **Canolfan Prosesu Signal Digidol** dan arweiniad Prifysgol Bangor. Mae proses sicrwydd y ddau brosiect hefyd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a byddant yn symud ymlaen i'r wedd nesaf ac yn cyflwyno Achos Busnes Llawn i'w parhau'n unwaith y bydd y gweithgareddau caniatâd a chaffael perthnasol wedi'u cwblhau.

Hefyd y chwarter hwn, cwblhawyd y diweddariad blynyddol cyntaf i Achos Busnes y Portffolio, sy'n ofyniad dan y Cytundeb Twf Terfynol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Cyflwynwyd yr achos busnes wedi'i ddiweddarau i'r Bwrdd ym mis Medi a'i gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Llywodraeth.



**Mae nifer i weithgareddau caffael wedi'u cwblhau i gefnogi gwaith y tîm y chwarter hwn.**

- Mae FarrPoint wedi'u penodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes ar gyfer y prosiectau Ychydig % Olaf a Choridorau Cysylltiedig o fewn y Rhaglen Ddigidol.
- Mae Arup wedi'u penodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu methodoleg i helpu prosiectau i gyflawni ar ymrwymadau'r Bwrdd i newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

**Parhawyd â gweithgareddau recriwtio** y chwarter hwn gyda'r penodiadau a ganlyn wedi'u gwneud. Stuart Whitfield, Rheolwr Rhaglen Ddigidol, Sian Lloyd-Roberts, Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol, Laura James-Mowbray, Arweinydd Trafnidiaeth Strategol, Catherine Morris-Roberts, Uwch Swyddog Cyflawni Sgiliau ac Angharad Evans, Rheolwr Prosiect Graddedig y Cynllun Twf. Bydd y tair swydd wag sy'n weddill yn cael eu llenwi yn y chwarter nesaf.

Mae tri phrosiect dan arweiniad busnesau sydd wedi'u hadnabod drwy Her Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID) Llywodraeth Cymru wedi cael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen i Wedd 2 - prosiect drôn ar fferm gyda M-SParc, arddangosiad treulio anaerobig y gellir ei ehangu gyda The Biofactory a llwyfan ôl-troed carbon dwyieithog ar gyfer ffermydd da byw gyda Promar International. Mae her WBRID yn cael ei chyflawni yn y Gogledd gan y Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda Choleg Cambria yn Llysfasi.

Yn olaf, fel rhan o'n partneriaeth gyda Business News Wales, rydym wedi lansio ein [sianel a chylchlythyr busnes penodol i'r Gogledd](#). Byddant yn rhannu newyddion ynghylch y datblygiadau diweddaraf o fewn y Cynllun Twf a byddant yn darparu colofnau i brocio'r meddwl ac eitemau gan ffigyrau allweddol yn y rhanbarth.

*Alwen Williams*  
Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

Themâu	Statws RAG	Sylwadau
Achos Busnes y Portffolio		Cymeradwywyd Achos Busnes y Portffolio fel rhan o'r Cytundeb Twf Terfynol ym mis Rhagfyr 2020. Ystyriodd a chymeradwyodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Bwrdd Uchelgais" neu "y Bwrdd") ddiweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymeradwyaeth fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.
Piblinell Cyflawni		Mae'r amserlen ar gyfer datblygu achosion busnes prosiectau wedi llithro gyda nifer o brosiectau bellach yn rhagweld oedi o 3-6 mis. Mae hyn yn bennaf yn sgil y broses datblygu achosion busnes a'r broses sicrwydd a chymeradwyo yn cymryd yn hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, ac ni ystyrir ei fod yn risg sylweddol i gyflawni'r Cynllun Twf. Mae amserlen ddiwygiedig wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymeradwyaeth fel rhan o ddiweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio.
Llywodraethu		Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn weithredol. Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu 2 gan yr holl bartneriaid ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r broses Gwrthdaro Buddiannau wedi'i chyflwyno i'r Bwrdd Cyflawni Busnes, y Bwrdd Portffolio a'r Byrddau Rhaglen ac mae'n cael ei chyflwyno i'r Byrddau Prosiect ar hyn o bryd.
Tudalen 22 Sicrwydd		Cynhaliwyd yr adolygiad sicrwydd blynyddol o'r Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglen) ym mis Awst 2021 gan gyflawni gradd hyder o Ambr-Gwyrdd, sy'n welliant ar y radd Ambr a dderbyniwyd yn 2020. Cydnabu'r adroddiad y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan nodi pumm argymhelliad.
Tudalen 23 Agnododau a Capaciti		Mae tair swydd wag o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio a byddwn yn recriwtio i'r rhain yn chwarter 3. Mae recriwtio i rolau rheoli prosiect yn heriol yn yr hinsawdd sydd ohoni gyda dwy o'r rolau hyn wedi'u hail-hysbysebu.
Cyllid		Yn sgil yr oedi sydd wedi'i amlinellu uchod i amserlen cyflawni'r prosiectau, nid oes unrhyw achosion busnes llawn wedi'u cymeradwyo hyd yma a bydd y gwariant cyfalaf ar gyfer 2021-22 yn sylweddol is na'r gyllideb a ddisgwyliwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi.
Risg		Mae tair gradd risg gweddilliol wedi cynyddu y chwarter hwn -1) capasiti partneriaid i ddarparu cynrychiolwyr i fyrddau prosiect ac anhawster recriwtio i swyddi gwag o fewn y PMO, 2) buddsoddiad sector cyhoeddus a 3) amcanion gwario. Mae 2) a 3) wedi codi yn sgil y ffaith bod nifer o geisiadau i newid prosiectau yn cael eu hystyried. Mae dwy risg newydd wedi'u hychwanegu yn dilyn adroddiad sicrwydd y portffolio - cyllid referniw a bwlch sgiliau.
Monitro a Gwerthuso		Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso diwygiedig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o ddiweddariad blynyddol Achos Busnes Portffolio 2021.
Cyfathrebu ac Ymgysylltu		Mae brand newydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a chaiff ei lansio yn ystod chwarter 3 ynghyd â'r wefan newydd. Fel rhan o'n partneriaeth gyda Business News Wales, rydym wedi lansio ein sianel a chylchlythyr busnes penodol i'r Gogledd. Byddant yn rhannu newyddion ynghylch y datblygiadau diweddaraf o fewn y Cynllun Twf a byddant yn darparu colofnau i brocio'r meddwl ac eitemau gan ffigyrau allweddol yn y rhanbarth.

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---



Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.	380	£158m	£41.7m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tudalen 25	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prosiect Digidol bellach yn datblygu'r Achos Busnes Llawn gyda chaffael yn dechrau y chwarter hwn. Mae'r prosiect ar y trywydd cywir i gael cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r Achos Busnes Llawn erbyn diwedd y flwyddyn.</li> <li>Mae Byrddau Prosiect bellach yn eu lle ar gyfer tri phrosiect a bydd gweithgorau'r ddau brosiect olaf arall yn cael eu ffurfiol i fyrrdau prosiect ar ddechrau chwarter 3.</li> <li>Mae cyflawni'r Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer yr Ychydig % Olaf ar y trywydd cywir gyda chefnogaeth allanol wedi'i dwyn i mewn.</li> <li>Bu oedi gyda datblygu Achos Busnes Amlinellol y prosiect Coridorau Cysylltiedig yn sgil y gofyn i ddisodli'r gefnogaeth ymgynghoriaeth flaenorol</li> <li>Bydd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect yr Ychydig % Olaf bellach yn cael ei gwblhau pan fydd deiliant 'Adolygiad Marchnad Agored' o osodiad band llydan, Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar gael yn Chwarter 3.</li> </ul>



**Mark Pritchard**  
Aelod Arweiniol



**Sioned Williams**  
Uwch Berchennog  
Cyfrifol



**Stuart Whitfield**  
Rheolwr Rhaglen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
<b>Canolfan Prosesu Signal Digidol</b> Prifysgol Bangor	Achos Busnes Llawn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau'r broses gymeradwyo: BWRDD UCHELGAIS</li> <li>ystyried yr Achos Busnes Amlinellol ym mis Awst.</li> <li>Cychwyn cam cyntaf y gwaith caffael</li> <li>Wedi dechrau datblygu'r Achos Busnes Llawn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caffael wedi'i gwblhau</li> <li>Achos Busnes Llawn wedi'i gyflwyno i'w adolygu a'i gymeradwyo</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Achos Busnes Llawn bellach ar y trywydd cywir i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais yn y chwarter nesaf.</li> </ul>
<b>Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf</b> Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ddrafftio</li> <li>Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'i benodi</li> <li>Cefnogaeth achos busnes arbenigol wedi'i dwyn i mewn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau Achos Busnes Amlinellol</li> <li>Adolygiad Porth 2</li> <li>Adolygiadau Bwrdd Rhaglen a Bwrdd Cyflawni Busnes</li> <li>Deiliant Adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Oedi ar ddatblygu'r achos busnes oherwydd yr angen i asesu deiliant adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru yn Chwarter 2.</li> </ul>
<b>Canolfan Cysylltiedig</b> Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Astudiaeth sgopio wedi'i gwblhau, mewnbyn Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddatblygu</li> <li>Cefnogaeth allanol ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol wedi'i chaffael</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Achos Amlinellol Strategol terfynol wedi'i ddatblygu</li> <li>Achos Busnes Amlinellol drafft wedi'i ddatblygu</li> <li>Ymarfer gwaelodlin darpariaeth</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Oedi ar ddatblygu'r achos busnes oherwydd yr angen i ddisodli'r ymgynghoriaeth blaenorol i fwrw ymlaen â'r Achos Busnes Amlinellol</li> </ul>
<b>Ffurfio Llawm mewn Safleoedd Allweddol</b> Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu'r bwrdd prosiect dros dro a phenodi Uwch Berchennog Cyfrifol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Achos Amlinellol Strategol ac ymgymryd â gwaith sgopio / dichonolrwydd</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu'r achos busnes wedi'i ohirio er mwyn galluogi i gapasiti'r rhaglen ganolbwyntio ar ddau brosiect cychwynnol</li> <li>Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Drafft Llywodraeth er cymeradwyaeth</li> </ul>
<b>Campysau Cysylltiedig</b> Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi sefydlu'r bwrdd prosiect dros dro</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Achos Amlinellol Strategol ac ymgymryd â gwaith sgopio / dichonolrwydd</li> <li>Penodi Uwch Berchennog Cyfrifol</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu'r achos busnes wedi'i ohirio er mwyn galluogi i gapasiti'r rhaglen ganolbwyntio ar ddau brosiect cychwynnol</li> <li>Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Drafft Llywodraeth er cymeradwyaeth</li> </ul>

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.	980	£530m	£668.5m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
5.2	To develop processes and guidance around robust record keeping and management information mechanisms once ICT systems have been agreed.	Key management information / audit trail - Without recording key information, there is a lack of evidence to demonstrate that adequate action is being taken to secure alternative accommodation, sufficient checks are being carried out on the citizens, or that the person has a genuine homeless need  Moderate Risk ●	Service Manager CSS  31/03/2022	<b>Not Yet Due</b>  While the ICT system has not yet been agreed, some processes such as maintaining the emergency accommodation spreadsheet, have been documented. However, other key processes, e.g. assessment process are not in place.
5.3	To continue with ongoing 6 weekly caseload reviews for each Homelessness	Key management information / audit trail - Without recording key information, there is a lack	Service Manager CSS  31/03/2021 and ongoing	<b>In Progress – Revised Date Ongoing</b>  A Homeless Prevention Administrator carried out various quality assurance checks, which were shared with the team so any gaps could

# Accommodation Provision for the Homeless Follow Up

Tudalen 75

	Prevention Officer, by the management team. New processes for review will be introduced as the Rapid Rehousing Model is implemented and KPIs developed.	of evidence to demonstrate that adequate action is being taken to secure alternative accommodation, sufficient checks are being carried out on the citizens, or that the person has a genuine homeless need  Moderate Risk ●		be rectified prior to discussion at the team meeting. However, this monitoring has stopped now the Administrator has left. It was envisaged to carry out caseload reviews for discussion at 1-2-1s, but this has not been possible due to the high caseloads of the Homeless Prevention Officers with some having 90 cases to manage.
6.1	To undertake a strategic review of charging within emergency and temporary accommodation leading to the development of a Homelessness Charging Policy, if appropriate	Accommodation charges - Where there is a shortfall between the occupation charge and benefits available, the council usually covers the difference. While discretion can be applied based on individual circumstances, there is little evidence of efforts taken to minimise the shortfall and lessen the financial impact on the council. Also, citizens may be reluctant to secure permanent tenancies as the rent will be unaffordable in comparison  Moderate Risk ●	Principal Manager (CSS, Support Services)  30/06/2021	<b>No Progress – Revised Date 31/03/2022</b>  Due to other priorities, this has not been taken forward, although planned to raise at a future Strategic Housing and Homelessness Group meeting.

# Accommodation Provision for the Homeless Follow Up

7.1	To agree a policy and procedures around managing arrears of rent from those households in temporary accommodation including management sign off for writing off bad debts and credits on tenancy accounts.	Management of occupation accounts - A lack of regular monitoring will result in outstanding debts not being recovered promptly, and could result in the system being exploited  Moderate Risk ●	Service Manager CSS / Finance Business Partner/Lead Officer Community Housing  30/06/2021	<b>In Progress – Revised Date 31/03/2022</b>  Community Housing are now responsible for monitoring the occupation accounts. Good progress has been made since our original review, e.g. with reviewing current tenant arrears and write offs have been carried out for financial year 2020/21. However, former tenant arrears have yet to be reviewed, and there has only been a minor decrease in the number of accounts that have credits.
-----	--	---	---	--

Tudalen 76

# Accommodation Provision for the Homeless Follow Up

## Report Recipients

- Homeless Team Manager (MDT)
- Principal Manager (Support Services)
- Service Manager (Business Support & Communities)
- Head of Community Support Services
- Lead Officer, Community Housing
- Housing Development Manager
- Senior Finance & Assurance Officer
- Chief Executive
- Head of Finance & Property / S151 Officer
- Corporate Director: Communities
- Strategic Planning & Performance Officer
- Scrutiny Co-ordinator
- Partnership Scrutiny Committee
- Lead Member for Wellbeing and Independence
- Lead Member for Finance, Performance & Strategic Assets
- Governance & Audit Committee
- Strategic Housing & Homelessness Group
- Lead Officer (Destination, Marketing & Communication)

Tudalen 77

## Internal Audit Team

Lisa Harte, Senior Auditor CMIIA

01824 718084

[lisa.harte@denbighshire.gov.uk](mailto:lisa.harte@denbighshire.gov.uk)

## Key Dates

Review commenced

August 2021

Review completed

October 2021

Proposed date for next follow up review

May 2022

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod</b>	<b>16 Rhagfyr 2021</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b>	<b>Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth ac Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2020-2021</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2020-2021 yw'r adroddiad hwn (Atodiad 1). Mae'n ofynnol yn Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid mewn perthynas â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2020-2021.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd yn 2020-2021 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 4.2. Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac roedd y Byrddau i ddefnyddio'r canllaw hwn ar gyfer cwblhau ei adroddiad. Mae'r adroddiad sydd ynghlwm yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd angen ei chynnwys yn y Canllawiau hynny. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cael ei ysgrifennu mewn fformat sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys barn nifer o aelodau'r Bwrdd.
- 4.3. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofawyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- 4.4. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau gwneud penderfyniadau i Weinidogion Llywodraeth Cymru o ran trefniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd a gydgasglwyd) a byrddau partneriaeth.
- 4.5. Diben Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:
  - Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
  - Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
  - Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
  - Defnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol.



4.6. Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud ac mae'n ystyried sut mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

4.7. Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Codau a chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth), a gellir gweld y cynnydd o ran eu gweithredu yn yr Adroddiad Blynyddol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gefnogi cymunedau cryf a hefyd sicrhau gwasanaeth di-dor i unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn cydgasglu cyllid i gefnogi gwaith rhanbarthol ar draws y rhanbarth. Mae hyn hefyd yn ariannu'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol ac mae cytundeb partneriaeth ffurfiol i ategu hyn. Caiff costau sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eu hariannu o'r gronfa hon os nad oes unrhyw grant partneriaeth arall ar gael i'w talu.

6.2. Drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn sianelu ffrydiau ariannu grantiau fel y Gronfa Gofal Integredig, Grantiau Cyflawni'r Agenda Drawsnewid. Lle bo'n bosibl codi tâl gweithgaredd partneriaeth rhanbarthol ar y grantiau hyn, mae hyn yn cael ei weithredu.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Ni chynhaliwyd Asesiad rhanbarthol o'r Effaith ar Les ar gyfer y BPRh.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Bydd yr aelodau'n ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddant wedi cael gwybodaeth am Ran 9 o'r Ddeddf a

datblygiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol, ac eithrio gydag aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys ystod eang o aelodaeth ac sy'n cynnwys dinasyddion a gofalwyr.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth mewn perthynas â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2020-2021, ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol na pharhaus.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Y risg yw sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau ar adroddiadau blynyddol bwrdd partneriaeth rhanbarthol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 wrth gynhyrchu'r adroddiad blynyddol. Y prif risg yw fod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gallu datblygu'r amryw ofynion fel sy'n ofynnol yng Nghanllawiau Rhan 9 a bod y bartneriaeth yn datblygu er mwyn galluogi rhagor o waith partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Rhan 9

11.2. Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio wedi'u nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4 Cyfansoddiad y Cyngor.



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**


**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

**Atodiad 1**

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Adroddiad Blynyddol

### 2020/21



Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Tudalen 83

## Cynnwys

Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)	3
1. Llywodraethu'r Partneriaethau .....	4
2. Yr Wybodaeth Gyffredinol Ddiweddaraf ynghylch Cyflawni'r Cynllun Ardal .....	9
3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol .....	16
4. Edrych tuag at y Dyfodol .....	18
Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru .....	19
Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol.....	20



(Tynnwyd y llun Ebrill 2019)

# Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)

Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



Fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad 20/21 – ac am flwyddyn oedd hi ers i'r math newydd o coronafirws ddod i mewn i'n bywydau.

Cafodd pob un ohonom ni ein heffeithio gan bandemig Covid-19. Yn anffodus, collodd lawer o bobl eu bywydau i'r coronafeirws newydd a bu iddo amharu ar ein bywydau mewn nifer o ffyrdd gwahanol, yn enwedig bywydau pobl ddiameddiffyn. Felly hefyd o safbwynt system; mae Covid-19 wedi bod yn her anferth i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ond, wedi dweud hynny, mae ymroddiad ein gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau wedi bod yn rhagorol.

Fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bu i ni ganolbwyntio'n ddoeth ar 'bobl' – yn gleifion ac yn staff, ein trefniadau cydweithio, y dull partneriaeth a darparu gofal di-dor. Dros y deuddeg mis diwethaf rydym ni wedi ymateb, addasu ac arloesi.

Gwelais gyfraniadau rhyfeddol gan staff, timau, sefydliadau, cymunedau, grwpiau a gwirfoddolwyr yn arbennig, a dw i'n teimlo'n falch iawn wrth i mi fyfyrto ar y cydweithio sydd wedi digwydd – pa un ai oedd hynny'n strategol, tactegol neu'n weithredol. A phawb gyda'r un nod – i wneud gwahaniaeth.

Fel miloedd o bobl, yn gwarchod eu hunain neu'n ynysu am resymau amrywiol, rydym ni hefyd wedi croesawu technoleg ddigidol i gysylltu â'n gilydd fel partneriaid, arweinwyr a darparwyr. Fel system gyfan, mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r flwyddyn ryfedd hon i'n haddysgu a sicrhau bod yna gamau gweithredu cydlynol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi dod i'r amlwg. Yn wir, roedd yn flwyddyn o drawsnewid sylweddol mewn gwasanaethau, ac mae rŵan yn bryd i ni adeiladu ar yr arloesi hwnnw a bwrw ymlaen â'n datblygiadau gweithlu.

Wrth symud ymlaen mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar adfer ac adnewyddu, yn ogystal â pharhau i fod yn wylidwrus rhag ton newydd o'r feirws. Mae'n rhaid canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol a lleol er mwyn i ni gipio unrhyw gyfle am newid cadarnhaol.

Cofion gorau – Teresa Owen

# 1. Llywodraethu'r Partneriaethau

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi pwrpas, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n amlinellu'r datblygiad partneriaeth allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a chynnydd o ran gweithredu newidiadau yn y Canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

## 1.1 Pwrpas, Rôl, Aelodaeth, Strwythur Gweithredu a Blaenoriaethau Allweddol

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyfarfod bob mis ac mae bellach yn cynnal cymysgedd o gyfarfodydd busnes ynghyd â sesiynau datblygu. Ym mis Rhagfyr 2020 adolygodd a diweddarodd y Bwrdd ei gylch gorchwyl.

### Datganiad o Weledigaeth

*Cydweithio i wella lles pobl a chymunedau*

### Egwyddorion Arweiniol

Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ei egwyddorion arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac mae'r rhain yn parhau i fod addas i'r diben:

- Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol
- Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau cydlynol sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr a chymunedau)
- Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau ansawdd uchel yn y gymuned
- Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau
- Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

## 1.2 Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adolygir Cylch Gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn flynyddol, fodd bynnag rôl hanfodol y Bwrdd ydi:

“Yn ystod pandemig Covid-19 dw i wedi dysgu sut i ddefnyddio llechen electronig. Mae hyn wedi bod yn gymorth mawr i mi, gan fy mod i rŵan yn gallu cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, teulu a grŵp cefnogi ar-lein. Dydw i ddim yn teimlo mor unig, ac mae wedi bod yn help mawr i'm hiechyd meddwl hefyd.”

Mae Will yn byw ar ei ben ei hun a doedd ganddo ddim mo'r arian i brynu llechen, felly gwnaeth y LAC gais i brosiect y Cyngor, a oedd yn cynnig dyfeisiau i-Pad i aelodau o'r gymuned er mwyn iddyn nhw gadw mewn cysylltiad â phobl.  
**Cydlynnydd Asedau Lleol (LAC) a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig – dull gweithio newydd gyda chymunedau a ddatblygwyd ar Ynys Môn**

yn


a

o

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Chymru Iachach
- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy
- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion y Bwrdd
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni ei amcanion
- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, gan uwchgyfeirio unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu datrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Rheolir busnes y Bwrdd a busnes yr is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol.

Cafodd strwythur llywodraethu'r Bwrdd ffurfioli ym mis Ionawr 2021 ac mae'r strwythur i'w weld isod. Adolygwyd ein cylch gorchwyl ym mis Tachwedd 2020. Mae aelodau'r Bwrdd (ar ddiwedd mis Mawrth 2021) i'w gweld yn Atodiad 1.




### 1.3 Datblygu Partneriaeth Allweddol

Oherwydd pandemig Covid-19 gohiriwyd yr holl ddatblygiadau partneriaeth a oedd ar y gweill.

Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu partneriaeth, rydym ni wedi cymryd rhan ymhob digwyddiad dysgu Llywodraeth Cymru a chyfarfod gyda'r Gweinidog yn 2020. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i weithio gyda Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu ymateb lleol a rhanbarthol cydlynol i anghenion lles unigolion.

Rydym ni'n mynychu cynadleddau a seminarau i arddangos gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol e.e. Cynhadledd Flynyddol Genedlaethol Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, yn 2020, gan fod y gynhadledd hon yn cael ei chynnal ar-lein, nid oedd modd arddangos gwaith y Bwrdd.

Rydym ni wedi cadarnhau ein blaenoriaethau a'n dogfen ffocws ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy. Mae hyn yn cysylltu â'n Cynllun Ardal a blaenoriaethau presennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.



### 1.4 Fforwm Mwy Na Geiriau

Nod fframwaith strategol Mwy Na Geiriau ydi arwain ar nifer o welliannau i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu mam iaith, heb orfod gofyn am hynny. Mae aelodaeth y Fforwm Mwy Na Geiriau yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor.

Wrth gwrs, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar ein gwaith fel Fforwm. Nid oedd modd i ni gwrdd wyneb yn wyneb yn 2019-21 ac felly rydym ni wedi penderfynu adrodd ar 2019-21 er mwyn darparu diweddariad cynhwysfawr o'r gwaith sy'n cael ei wneud ymhob sefydliad.

Er gwaethaf y pandemig, mae ystod eang o waith da wedi'i wneud gan bob partner, ar faterion fel gweithio integredig, hyfforddiant, gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac amrywiaeth o gynlluniau a rhaglenni. Wrth gwrs, mae'r partneriaid yn cyflawni peth wmbredd o fewn y maes gwaith hwn yn annibynnol o'r Fforwm, ond mae'r adroddiad hwn yn gyfle i rannu a lledaenu arferion da ymhellach, a nodi nodau ac amcanion i'r dyfodol.

### 1.5 Cynnydd o ran gweithredu newidiadau i'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig


Yn dilyn derbyn y Codau a Chanllawiau Rhan 9 diweddaraf ym mis Ionawr 2020, roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bwriadu trafod y newidiadau gofynnol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, ond bu'n rhaid gohirio hwnnw oherwydd Covid-19. Ymunodd cynrychiolwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig â'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2018 a mis Chwefror 2019 yn y drefn honno; bydd Cadeirydd y Bwrdd yn ceisio enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr Addysg a Thai Awdurdod Lleol drwy'r Fforwm Prif Weithredwyr rhanbarthol.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn bresennol i drafod gwaith y Bwrdd o ran cyflawni'r



flaenoriaeth i sefydlu gwasanaethau integredig ar gyfer 'plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anableddau neu salwch ac i blant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl'. Mae is-grŵp eisoes wedi'i sefydlu i oruchwylio darpariaeth ein partneriaeth Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc.

Mae gennym ni Ganolfan Gomisiynu Strategol hir-sefydlog yn y rhanbarth sydd wedi'i thanategu gan gytundeb partneriaeth a'i hariannu gan bartneriaid. Mae'r rhaglen waith wedi'i halinio gyda gwaith y Byrddau Trawsnewid, gan nodi ym mhle y galli ychwanegu gwerth / cefnogi'r rhaglen drawsnewid:



## Gweithlu Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn parhau i gefnogi darpariaeth Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Gogledd Cymru, yn ogystal â sicrhau darpariaeth i gefnogi strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae datblygiad a darpariaeth rhaglen waith sy'n hyblyg ac yn canolbwyntio ar faterion penodol wedi bod yn sail i welliant parhaus a chyflawniad yn ystod 12 mis o heriau ac ansicrwydd.

Mae effaith pandemig y coronafeirws wedi amlygu'r angen i ddarparu cefnogaeth addas i ddarparwyr gofal ledled y rhanbarth. Arweiniodd trafodaethau cynnar gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) at ddatblygu a gweithredu Memorandwm o Ddealltwriaeth, gan alluogi darparwyr gofal i gael mynediad at staff banc BIPBC i gyflenwi yn ystod cyfnodau o ddiffyg staff. Wrth i'r pandemig barhau, roedd angen diwygio a gwella'r Memorandwm o Ddealltwriaeth. Cafodd y meini prawf ar gyfer angen eu mireinio, cadarnhawyd cyfrifoldebau pawb a oedd yn gysylltiedig a symleiddiwyd y gefnogaeth weinyddol. Dewisodd y chwe Awdurdod Lleol i gytuno â'r cytundeb gyda BIPBC, i ddefnyddio'r cyfleuster pan fo angen. Byddwn yn ail-edrych ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth fel rhan o'n rhaglen gwaith i'r dyfodol. Bydd gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi a bydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cael ei adolygu i sicrhau bod y meini prawf, y cyfrifoldebau a'r prosesau yn parhau i fod yn ddilys, gan gyflwyno gwelliant ble bynnag fo'n bosib.

Mae ymgyrch genedlaethol Gofalwn i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal wedi'i chefnogi drwy ddatblygu tudalen Facebook rhanbarthol. Ar ôl ei chreu ddiwedd mis Hydref

2020, erbyn mis Tachwedd roedd y dudalen wedi cyrraedd 31,195 o bobl, gyda 1,572 yn ymgysylltu a thros 200 wedi'i hoffi. Cafodd hyn ei ymestyn yn ystod y cyfnod cyn y ffair yrfaeodd ar-lein ac wythnos Gofalwn ym mis Tachwedd 2020.

Mae cofrestru gweithlu gofal preswyl yn un o ofynion RISCA a ddylid ei fodloni erbyn 2022. Yn ystod y pandemig dydi hyn ddim wedi bod yn fater sydd wedi'i bwysleisio. I fynd i'r afael â hyn, mae sesiynau briffio rhanbarthol ar draws y chwe Awdurdod Lleol wedi'u trefnu i egluro'r pedwar dull cofrestru sydd ar gael i weithwyr gofal ac i bwysleisio bod hyn yn gyfrifoldeb ar y cyflogwr. Bydd adolygiad o ddata Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n ymwneud â rheiny sydd wedi cofrestru, yn cael ei fonitro i nodi unrhyw risg gwasanaeth. Bydd y porth darparwyr rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i anfon negeseuon atgoffa a bydd y timau comisiynu hefyd yn cymryd camau gweithredu.

Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i nodi a gweithredu camau allweddol a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau i weithlu Gwaith Cymdeithasol plant yng ngogledd Cymru. Mae tair ffrwd waith wedi'i nodi – recriwtio, datblygu, cadw. Bydd gwaith yn cael ei wneud rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2021, a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithlu ym mis Gorffennaf.

Mae 'Rhaglen Camu i Waith' BIPBC yn rhaglen wirfoddoli sy'n darparu lleoliad gwaith i amrywiaeth o bobl e.e. unigolion o gartrefi di-waith, pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers peth amser, Scope a myfyrwyr addysg uwch a phellach. Mae gweithgor wedi'i sefydlu'n ddiweddar ac er y dyddiau cynnar iawn ymddengys y gallai cydweithio arwain at ddatblygu rhaglen sy'n bodloni gofynion y sector iechyd a'r sector gofal.

Mae'r Prosiect Economi Sylfaenol wedi nodi y byddai asiantaeth staffio nid-er-elw ardal yn ddatrysiad posibl i gyflenwi staff a gwasanaethau eraill i ychwanegu gwerth ar y sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal iechyd yng ngogledd Cymru. Gall y model fod yn hyblyg i gwrdd ag anghenion lleol, a helpu i recriwtio a chadw staff yn yr ardal, gan ddarparu gweithwyr sy'n deall diwylliannau lleol ac yn siarad Cymraeg. Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi'u trefnu gydag Ynys Môn/Gwynedd (Gorllewin), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Cyngor Sir Ddinbych (Canol) a Chyngor Sir y Fflint/Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (dwyrain) i weld sut mae modd defnyddio canfyddiadau'r prosiect er budd pob ardal.

## 2. Yr Wybodaeth Gyffredinol Ddiweddaraf ynghylch Cyflawni'r Cynllun Ardal

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol cyflwynir y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion allweddol yn y cynllun ardal a'r meysydd o flaenoriaeth ar gyfer integreiddio yn unol â'r cyfarwyddyd Rhan 9, gan gynnwys y canlyniadau a gyflawnwyd ar ran defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr. Mae'n ymdrin yn benodol â'r grwpiau blaenoriaeth a bennwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ystod 2020-21 parhaodd y Bwrdd i ddatblygu ei ddulliau o ran gwasanaethau integredig ar gyfer ei feysydd blaenoriaeth.

### 2.1 Cynllun Ardal Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Ardal yn pennu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac mae hyn yn gosod y cyfeiriad i'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Ardal yn nodi sut y bydd y rhanbarth yn mynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sef yr edefyn aur sy'n dal i gysylltu meysydd gwaith penodol yn y rhanbarth.

### 2.2 Cymru Iachach

Er bod Covid-19 wedi effeithio ar flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2020/21, cafwyd llwyddiant wrth gyflawni'r pedair rhaglen drawsnewid ar gyfer 'Cymru Iachach' a ddyluniwyd i beri i wasanaethau integredig cymunedol ddatblygu'n gyflym ledled y rhanbarth, a chyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol i bobl.

#### 2.2.1 Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol



Mae Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn rhaglen waith uchelgeisiol sydd â'r nod o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well ar lefel ardal ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhai hynny sy'n byw gyda dementia, pobl ag anableddau corfforol a gofalwyr di-dâl.

Wrth wraidd y model hwn sy'n seiliedig ar leoedd, mae penderfyniad i ddarparu trefniadau llywodraethu integredig gwell, yn ogystal â datblygu strwythurau darparu gweithredol sy'n sicrhau dull cydlynol a di-dor o ran darparu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i greu rhaglen gadarn ar gyfer newid.


Mae trawsnewid y modd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol yn cydweithio yn waith hirdymor. Gwnaed cynnydd wrth osod partneriaid mewn sefyllfa gref i gyflawni newid go iawn.

Yn y Gorllewin cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaethol ymhob maes. Ategir y gwaith integredig gan safle *SharePoint* a fydd ar gael i'r holl bartneriaid at ddibenion rhannu gwybodaeth am y Timau Adnoddau Cymunedol a'r Rhaglen Drawsnewid yn ei chyfanrwydd. Mae hynny'n cynnwys 'bwrdd sgrymio' ar gyfer pob un o feysydd gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol, sy'n cynnal y momentwm ac yn sicrhau y caiff yr holl fudd-ddeiliaid allweddol fynediad at wybodaeth berthnasol. Bellach mae yno fwrdd electronig i gofnodi rhwystrau, ac mae gwaredu rhwystrau'n un o'r pynciau y mae uwch-reolwyr yn eu trafod yn y cyfarfodydd cynnydd a gynhelir bob pedair wythnos.

## 2.2.2 Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc

Mae Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar amcan cyffredinol i gyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae tair haen i'r rhaglen:



- Ymgyrch aml-asiantaethol i wella iechyd emosiynol plant a phobl ifanc, eu lles a'u gwytnwch, drwy ymyrryd yn gynnar ac atal mewn ffordd integredig, gan gynnwys datblygu a diwygio canolfannau cymorth cynnar lleol ymhellach
- Ymchwilio a datblygu ymriadau 'ymateb cyflym' (allgymorth argyfwng) yn seiliedig ar dystiolaeth i blant a theluoedd ar ffiniau gofal
- Datblygu gwasanaethau preswyl tymor byr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf bu datblygiadau arwyddocaol yn y rhaglen; ffurfiwyd dau dîm amlddisgyblaethol is-ranbarthol newydd sydd wedi darparu gwasanaethau i 36 o blant, pobl ifanc a'u theluoedd. Crëwyd rhaglen hyfforddiant strategol i gefnogi trydydd tîm amlddisgyblaethol is-ranbarthol a darparwyd 341 o sesiynau hyfforddi.

Sefydlwyd dwy wahanol ddarpariaeth breswyl tymor byr i gefnogi'r timau amlddisgyblaethol. Mae'r ddau brosiect yn anelu at ddarparu'r gwasanaethau yn y flwyddyn a hanner nesaf.

Mae'r ffrwd waith Iechyd Emosiynol, Lles a Gwytnwch wedi creu fframwaith peilot rhanbarthol i blant 8-11 oed, gan lunio egwyddorion arweiniol ar gyfer cynnal datblygiad iach o ran iechyd emosiynol plant a phobl ifanc, eu lles a'u gwytnwch, gan gwmpasu'r pum ffordd at lesiant. Mae ffrwd waith arall wedi sefydlu tîm ymyrraeth gynnar i ganolbwyntio ar roi cymorth yn gynnar i blant a phobl ifanc ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, a mabwysiadu dull 'dim drws anghywir' yn hynny o beth.

Wrth ymateb yn uniongyrchol i'r pandemig llwyddodd y rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc i gefnogi prosiectau gwytnwch cymunedol a fu'n gymorth i blant a phobl ifanc yn y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â chyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer y rhaglen.

## 2.2.3 Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu



Sylfaen y rhaglen yw Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru. Mae'r tîm yn gweithredu'r strategaeth drwy bump o ffrydiau gwaith: strwythurau integredig, datblygu'r gweithlu, comisiynu a chaffael, newid cymunedol a diwylliannol a thechnoleg gynorthwyol.

North Wales Together  
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd  
Seamless services for people with Learning Disabilities  
Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

SUT I'M TRIN YN DDA	GADEWCH IMI REOLI FY MYWYD FY HUN	HELPWCH FI I GYRRAEDD FY MHOTENSIAL	BYDDWCH YN ONEST
<p><b>Dylid trin pob unigolyn gyda pharch ag urddas</b></p> <p>"mae fy mharchu i yn golygu parhau fy ngofod, fy mhethau, fy mhenderfyniadau a'm perthnasoedd"</p> <p>"gwrandwch arnaf, a threuliwch amser yn dod i'm hadnabod!"</p> <p>"Byddwch yn glân"</p> <p><b>AWGRYMIADAU GWYCH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cyfathrebu mewn modd agored, cyson a syml</li> <li>Peidiwch â defnyddio jargon</li> <li>Dylid diogelu a pharchu gwybodaeth personol a chyfrinachol pobl</li> <li>Dylid defnyddio hiwmor mewn modd priodol</li> <li>Dylid gwirio sut y dymuna bobl gael eu cyfeirio atynt</li> <li>Byddwch yn brydlon a gweithredwch ar unfryw gamau yr ydych wedi dweud y byddwch yn eu cymryd</li> </ul>	<p>Mae llais, dewis, rheolaeth ac annibyniaeth wrth wraidd popeth a wnawn.</p> <p>Rydym yn ymhyfydu mewn gweithio ar y cyd.</p> <p>"Hoffwn gael dewis lle hoffwn i fyw a phwy sy'n byw gyda mi"</p> <p>"Helpwch fi i wneud yr hyn yr wyf yn ei ddymino, a gwrandwch arnaf"</p> <p>"Mae arnaf eisiau teimio'n bwysig a gallu gwneud penderfyniadau fy hun"</p> <p><b>AWGRYMIADAU GWYCH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid grymuro, annog a galluogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth i wneud pethau drostynt eu hunain ac i wneud eu penderfyniadau eu hunain.</li> <li>Dylid cefnogi unigolion i wneud y gorau o'u penderfyniadau a'u rheolaeth dros eu bywydau.</li> </ul>	<p>Rydym yn darparu gofal sy'n cenolbwyntio ar yr unigolyn, gan roi'r unigolyn wrth wraidd popeth a wnawn a'i helpu i gyrraedd eu potensial.</p> <p>"dysgwch gennyf, a cheisiwch gydnabod fy nghyferau"</p> <p>"helpwch fi i ddyegu pethau newydd"</p> <p>"rhwch ddigon, ond nid gormod o gefnogaeth imi"</p> <p><b>AWGRYMIADAU GWYCH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwch yn bardd i gymryd risgiau cadarnhaol, gan esbonio canlyniadau risgiau yn glir i eraill.</li> <li>Ceisiwch fynd i'r afael â phroblemau newydd a phroblemau sy'n datblygu yn greadigol</li> <li>Peidiwch â meddwl am gamgymeriadau fel rhywbeth negyddol, meddyliwch amdanynt fel cyfle i ddyegu a thryfu</li> <li>Byddwch yn gynnes, yn garedig, yn empathig, yn ddibynadwy ac yn ddastronol yn eich gweithredoedd</li> </ul>	<p>Rydym bob amaer yn onest ac yn dryloyw ac nid oes arnom ni ofn dweud pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.</p> <p>Rydym yn hunanymwybodol ac yn myfyrio'n rheolaidd ar y gwaith yr ydym yn ei wneud, sut rydym yn ei wneud a'r effaith yr ydym yn ei chael ar y rhai sy'n cael eu cefnogi.</p> <p>"Mae arnaf eisiau i bobl fod yn onest â mi, a dweud y gwir wrthyf"</p> <p><b>AWGRYMIADAU GWYCH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn dysgu gan eraill ac yn rhannu gwybodaeth ac arfer orau.</li> <li>Ceisio adborth gan gydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, myfyrwyr a'u dyddio oddi wrtho</li> <li>Bod yn ddigon dewr i godi eich llais a herio eraill lle mae ganddyn nhw bryderon am ansawdd neu ddiolegwch y gofal sy'n cael ei ddarparu.</li> </ul>

Bu 2020/2021 yn flwyddyn brysur iawn i **Raglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru gyda'n Gilydd**; oherwydd effeithiau'r pandemig bu'n rhaid rhoi cynlluniau gwaith o'r neilltu wrth i rai swyddogion arweiniol ddychwelyd i'w swyddi parhaol i helpu gyda'r argyfwng. Fe wnaeth holl aelodau'r tîm ddal i weithio o bell a llunio strategaethau i oresgyn yr anawsterau fel y gellid gweithredu prosiectau'n rhithiol, gan gefnogi partneriaid i gyflawni eu hamcanion mewn gwahanol ffyrdd.

**Er gwaethaf yr anawsterau cafwyd cryn lwyddiant mewn rhai meysydd: Ar y cyfan sefydlwyd 52 o brosiectau peilot a gomisiynwyd ar y cyd ledled gogledd Cymru i ategu cyflawniad y rhaglen.**

Dilynwch y ddolen hon i weld rhai o'r uchafbwyntiau: [Hafan -Home - Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd \(gogleddcymrugydangilydd.org\)](https://www.gogleddcymrugydangilydd.org)

Mae dogfen ar ein gwefan yn cynnwys blaenoriaethau 2020/2021: [Gwybodaeth am y Prosiect - Project Information - Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd \(gogleddcymrugydangilydd.org\)](https://www.gogleddcymrugydangilydd.org)

## 2.2.4 Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl



Gwnaed cynnydd arwyddocaol cyn Covid-19, er enghraifft, wrth sefydlu gwasanaeth Gofal heb ei Drefnu ICAN a datblygu canolfannau ICAN mewn wyth o drefni ledled y Gogledd.

Mae'r pandemig wedi creu cynnydd aruthrol yn y galw gan bobl sydd arnynt angen cefnogaeth gyda'u hiechyd a lles emosiynol. Bu rhwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r Rhaglen gan fod y rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddarparu unrhyw wasanaethau wyneb yn wyneb. Roedd yn ofynnol hefyd i staff Tîm y Rhaglen ail-bennu eu blaenoriaethau er mwyn cynorthwyo gydag ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r pandemig. Er gwaethaf hynny, roedd ymateb y Rhaglen i'r amgylchiadau eithriadol hyn yn chwim, yn gadarn ac yn sensitif, ac aethpwyd ati i sefydlogi ac ehangu'r gweithlu o wirfoddolwyr er mwyn darparu gwasanaeth cefnogi dros y ffôn, a bu hynny'n hanfodol bwysig i nifer arwyddocaol o bobl.

Mae gan y Rhaglen ICAN gynllun pendant ar gyfer dal ati i weithredu'r rhaglen gydol 2021/22 ac wedi sicrhau cyllid ar gyfer hynny gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 2.2.5 Canolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant

Nod y ganolfan yw cydlynu gwaith ymchwil, arloesi a gwella yng ngogledd Cymru i fod yn sail ar gyfer dulliau integredig newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r ymrwymiad a wnaed yn y cynllun Cymru Iachach.

Roedd yr uchafbwyntiau yn 2020-21 yn cynnwys cwblhau adolygiad cyflym o effaith Covid-19 ar bobl sydd arnynt angen gofal a chymorth, gan gynnwys arloesi mewn gwasanaethau. Fe gynorthwyom brosiectau trawsnewid i ddefnyddio tystiolaeth drwy gynnal chwiliadau o ddeunydd darllen, gan gynnwys adnoddau i gynnal lles plant, a darparu cyngor a chymorth gyda chreu arolygon ar-lein, dadansoddi data a dulliau ymchwil ar gyfer adrodd hanes. Gweithiom â phrosiectau wedi'u hariannu gan y Gronfa Gofal Integredig i ystyried materion fel graddfa, arferion da ac arloesi. Fe gyfrannom at wella cydlyniant drwy adnabod prosiectau tebyg mewn gwahanol sectorau/asiantaethau a chreu cysylltiadau rhyngddynt. Buom yn gweithio ar brosiectau cenedlaethol er mwyn osgoi dyblygu gwaith yn lleol a ffurfiom rwydweithiau cedyrn â chanolfannau rhanbarthol eraill. Er enghraifft, gweithiom gyda Gofal Cymdeithasol Cymru wrth ystyried y modd y defnyddir tystiolaeth ym maes Gofal Cymdeithasol, ac fe rannom ffrwyth ein gwaith o chwilio deunydd darllen â rhanbarthau eraill. Aethom ati hefyd i ddefnyddio ein gwefan i amlygu'r gwahanol ddulliau o hyrwyddo arloesi mewn gwahanol sectorau (Labordai Byw, Hacs Iechyd, Labordai Arloesi). Trefnom Labordy Arloesi Gofal Cymdeithasol gyda Phrifysgol Bangor a oedd yn canolbwyntio ar dechnoleg ddigidol. Buom hefyd yn gweithio â'r Asiantaeth Arloesi wrth ddatblygu'r cysyniad o Labordy Byw a dod ag ymarferwyr ac ymchwilwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa yng ngogledd Cymru o ran ymchwil, arloesi a gwella.

Daliom ati i hyrwyddo digwyddiadau, cyfleoedd ariannu a gwaith y tîm ar ein gwefan, ein cyfrif Twitter a thrwy newyddlenni rheolaidd dros e-bost. Mae hynny'n cynnwys trydar yn fyw yn ystod digwyddiadau allweddol yn y rhanbarth. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd mwy na 170 o bobl yn dilyn ein cyfrif Twitter a 130 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r Ganolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella.

Dilynwch ni ar Twitter @NW\_RIICH\_ / @NW\_RIICH ac/neu ewch i [Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant | North Wales Collaborative \(cydweithredfagogleddcymru.cymru\)](https://www.nwriich.org.uk/) i gael rhagor o wybodaeth.

## 2.3 Strategaeth Dementia Gogledd Cymru

Yn 2020-21 rhoes y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gymeradwyaeth i Strategaeth



Dementia Gogledd Cymru, a rhannwyd y strategaeth honno'n helaeth â phartneriaid er mwyn ei mabwysiadu a'i gweithredu. Ail-ffurfiwyd Grŵp Llywio Dementia'r Bartneriaeth yn dilyn y don gyntaf o'r pandemig byd-eang, a buddsoddiwyd i greu swydd Rheolwr Prosiect Dementia Rhanbarthol i gynorthwyo gyda gweithredu'r Strategaeth Dementia yn y rhanbarth. Ers mis Ionawr 2021 mae'r grŵp llywio wedi diwygio'i gylch gorchwyl ar gyfer

gweithredu'r strategaeth, mynd ati i adolygu ac ystyried effaith y pandemig ar y strategaeth, a llunio cynllun gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn 2021-22.

### Mae'r hyn a gyflawnwyd yn 2020-21 yn cynnwys:

- Adolygu Llwybr Safonau Gofal Dementia ar gyfer Cymru Gyfan fel y'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i gynnwys yn ein cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Dementia
- Datblygu Fforwm Ymgysylltu Dementia er mwyn cefnogi'r Grŵp Llywio i weithredu'r strategaeth mewn modd priodol ac effeithiol
- Mapio'r cyfleoedd ar gyfer adnabod blaenoriaethau i'w gweithredu drwy'r Strategaeth Dementia a'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu 2021/22
- Buddsoddi mewn prosiectau ac adnoddau cefnogi sy'n ategu gweithrediad y Strategaeth Dementia
- Datblygiadau i ddarparu Gwasanaeth Asesu Cof rhithiol yn y rhanbarth wrth fynd i'r afael â'r rhestr aros sydd wedi tyfu oherwydd y pandemig
- Dosbarthu pecynnau Enfys Lles i bobl ar restr aros y gwasanaethau Asesu Cof, i'w cefnogi wrth iddynt aros am asesiad
- Cais llwyddiannus am arian gan Lywodraeth Cymru i gyflogi Rheolwr Prosiect i ymdrin yn benodol â materion gwledig a'r iaith Gymraeg yng ngogledd Cymru a Phowys
- Mynd ati gyda phartneriaid i weithredu 11 o'r 31 o gamau gweithredu yn y Strategaeth Dementia.


Bydd Grŵp Llywio Dementia Gogledd Cymru'n dal i ddatblygu ei raglen waith er mwyn medru gweithredu'r Strategaeth a Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan ledled y rhanbarth yn 2021-22.

## 2.4 Cyllid Gofal Integredig

Yn ystod 2020-21, buddsoddiwyd cyfanswm o £18.92 miliwn o gyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig mewn 120 o brosiectau ledled ein rhanbarth. Gwariwyd ychydig dros £5.2 miliwn ar brosiectau a oedd yn cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol a buddsoddiwyd £2.6 miliwn i gefnogi prosiectau gan sefydliadau trydydd sector.

Mae'r grwpiau canlynol yn rhai sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio ac mae'n rhaid i bob rhaglen ranbarthol y Gronfa Gofal Integredig ymgymryd â nhw yn unol â'u hasesiadau poblogaeth rhanbarthol a'u cynlluniau ardal:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a salwch tymor hir, gan gynnwys dementia;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Plant ag anghenion cymhleth; a
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.



Daliwyd ati i ddatblygu prosiectau i gefnogi pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor. Mae yno 26 o brosiectau sy'n cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd, 36 o brosiectau i gefnogi pobl ag anableddau dysgu a 21 o brosiectau sy'n darparu ymyrraeth gynnar i bobl ifanc a'u teuluoedd.

Addaswyd 24 o brosiectau fel bod modd dal ati i'w darparu'n ddiogel yn ystod y pandemig Covid-19. Bu'n rhaid atal nifer o brosiectau dros dro gan nad oedd modd eu darparu'n ddiogel, a dargyfeiriwyd y cyllid i brosiectau a oedd wedi'u haddasu ac angen mwy o adnoddau.

